

Goblygiadau ariannol y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Rhagfyr 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Goblygiadau ariannol y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Rhagfyr 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Cadeirydd y Pwyllgor:



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Rhun ap Iorwerth AC
Plaid Cymru
Ynys Mon



Neil Hamilton AC
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Mike Hedges AC
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Jane Hutt AC
Llafur Cymru
Bro Morgannwg



Nick Ramsay AC
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



David Rees AC
Llafur Cymru
Aberafan

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Argymhellion a chasgliadau.....	5
1. Cefndir a throsolwg	6
2. Goblygiadau ariannol y Bil.....	8
Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru	8
Y fethodoleg ar gyfer cyfrifo costau	11
Opsiw 1.....	11
Opsiw 2	12
Camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.....	13
Cynnydd yn y galw am wasanaeth.....	13
Cod Ymarfer	15
Safbwynt y Pwyllgor.....	16

Argymhellion a chasgliadau

Argymhelliad 1. Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru..... Tudalen 11

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn argymhell y dylid mynd i'r afael â hyn, pe bai'r Bil yn symud ymlaen i gyfnod 2..... Tudalen 13

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru yn darparu costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau presennol i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil. Tudalen 10

Casgliad 2. Nid yw'r Pwyllgor wedi gallu ystyried yn llawn werth am arian Opsiynau un a dau gan nad oes llawer o wybodaeth ar gael am gostau cyfredol Llywodraeth Cymru i lywio ystyriaethau o'r fath..... Tudalen 13

Casgliad 3. Mae'n anodd i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar deilyngdod dull sy'n seiliedig ar ddiagnosis yn erbyn dull sy'n seiliedig ar anghenion heb ymwneud â pholisi, ond mae'r Aelodau'n ansicr a yw'r galw ychwanegol posibl ar adnoddau y gall y dull hwn arwain ato wedi'i ystyried yn llawn. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd hwn yn seiliedig ar y diffyg gwybodaeth glir am yr arian a wariwyd ar wasanaethau ASD. Tudalen 14

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu gwneud penderfyniad ar ddilysrwydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn. Nid yw'r Aelodau wedi cael unrhyw reswm ariannol sylweddol i'r ddeddfwriaeth beidio â symud yn ei blaen, ond nid ydym wedi gallu pennu a oes unrhyw werth am arian yn y ddeddfwriaeth hon oherwydd diffyg y wybodaeth ariannol..... Tudalen 17

1. Cefndir a throsolwg

1. Cyflwynwyd y **Bil Awtistiaeth (Cymru)** (y Bil) ar 13 Gorffennaf 2018 fel Bil Aelod gan Paul Davies AC. Y bwriad yw sicrhau bod anghenion plant ac oedolion ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) yng Nghymru yn cael eu diwallu, ac i ddiogelu a hyrwyddo eu hawliau. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau hyn drwy gyflwyno strategaeth ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion yng Nghymru sydd â chyflyrau ASD, a fydd yn:

- Hyrwyddo'r arfer gorau wrth wneud diagnosis ar gyfer ASD, ac asesu a chynllunio ar gyfer diwallu anghenion gofal.
- Sicrhau llwybr clir a chyson i wneud diagnosis ar gyfer ASD mewn ardaloedd lleol.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrrff y GIG yn cymryd y camau angenrheidiol fel bod plant ac oedolion ag ASD yn cael y diagnosis a'r cymorth amserol sydd ei angen arnynt ar draws ystod o wasanaethau.
- Cryfhau'r cymorth i deuluoedd a gofalwyr a sicrhau bod eu dymuniadau hwy, a dymuniadau pobl sydd ag ASD, yn cael eu hystyried.
- Hyrwyddo ymchwil, arloesedd a gwelliant mewn gwasanaethau ASD.
- Sefydlu arferion i hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth ddibynadwy a pherthnasol am nifer y plant ac oedolion sydd ag ASD fel y gall Gweinidogion Cymru, a chyrrff lleol a chyrrff y GIG gynllunio yn unol â hynny.
- Sicrhau bod staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ag ASD yn cael hyfforddiant ASD priodol.
- Adolygu'r strategaeth a'r canllawiau'n rheolaidd er mwyn sicrhau cynnydd.

2. Mae'r Bil hefyd yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar Weinidogion Cymru drwy ofyn iddynt:

- Gyflwyno canllawiau i'r cyrrff perthnasol ar weithredu'r strategaeth.
- Casglu data addas i hwyluso'r gwaith o weithredu'r Bil.
- Ymgymryd ag ymgyrch i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ASD.

3. Cafodd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol i'r Bil. Mae'r Aseiad yn nodi'r costau ar gyfer yr opsiynau a ganlyn:

- **Opsiwn 1:** Cynnal dull cyfredol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael ag anghenion plant ac oedolion sydd ag ASD yng Nghymru.
- **Opsiwn 2:** Cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod anghenion plant ac oedolion sydd ag ASD yng Nghymru yn cael eu nodi a'u diwallu.

4. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â phob opsiwn yn cael eu hasesu dros gyfnod o bum mlynedd, gan na ellir amcangyfrif costau y tu hwnt i'r amserlen hon gyda sicrwydd.

2. Goblygiadau ariannol y Bil

Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru

5. Amcangyfrifir bod Opsiwn 1 yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn costio £5.7 biliwn dros bum mlynedd, sy'n cynnwys:

- Dim costau i Lywodraeth Cymru;
- £368,000 i Fyrddau Iechyd Lleol;
- £3.5 biliwn i sefydliadau'r sector cyhoeddus mewn costau uniongyrchol;
- £2.1 biliwn mewn costau anuniongyrchol wedi'u haddasu ar gyfer cyflogaeth.

6. Mae Opsiwn 2 wedi amcangyfrif costau ychwanegol (yn ychwanegol at opsiwn 1) o £7.4 miliwn dros bum mlynedd, sy'n cynnwys:

- £360,000 i Lywodraeth Cymru;
- £4.5 miliwn i Fyrddau Iechyd Lleol;
- £2.5 miliwn i sefydliadau'r sector cyhoeddus mewn costau anuniongyrchol.

7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn pwysleisio nad oes unrhyw wybodaeth ar gael am gost darparu gwasanaethau uniongyrchol neu effeithiau economaidd anuniongyrchol ASD yng Nghymru. Yn lle hynny, cafodd [astudiaeth o'r sbectrwm awtistiaeth](#) a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 gan Lywodraeth yr Alban, a oedd yn seiliedig ar astudiaethau diweddaraf y DU ac astudiaethau rhyngwladol, ei defnyddio i bennu amcangyfrifon o gyffredinolrwydd a chostau yng Nghymru.

8. Roedd yr astudiaeth yn argymhell y dylid defnyddio 103.5 fesul 10,000 o'r boblogaeth fel yr amcangyfrif cyffredinolrwydd mwyaf cywir sydd ar gael. Mae'r Asesiad yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai ffigurau ar gyfer Cymru yn sylweddol wahanol, ac nid oes dystiolaeth gadarn ddiweddar yn benodol i Gymru.

9. Roedd yr Asesiad hefyd yn defnyddio'r astudiaeth i amcangyfrif costau oes ar gyfer pobl sydd ag ASD a'u gofalwyr. Mae'n rhannu'r costau rhwng pobl sydd ag ASD gydag Anabledd Deallusol a hebddo. Yna cymhwysodd y dadansoddiad yn yr astudiaeth i boblogaeth Cymru. Roedd y fethodoleg yn cynnwys:

- Cymhwyso amcangyfrifon cyffredinolrwydd i boblogaeth Cymru i amcangyfrif nifer yr unigolion yng Nghymru sydd ag ASD.
- Nodi unigolion sydd ag ASD yn ôl llety preswyl yn seiliedig ar astudiaethau blaenorol.
- Defnyddio costau uned sydd ar gael yn yr astudiaeth i bennu costau oes ar gyfer pobl sydd ag ASD a rhieni.

10. Amcangyfrifir bod y costau yn fwy nag £1.1 biliwn y flwyddyn ar gyfer darpariaeth gyfredol Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwyllderâu'r Sbectrwm Awtistiaeth,¹ a gafodd ei ddiweddarau ym mis Medi 2018. Mae tua £700 miliwn, neu 62 y cant, o'r rhain yn gostau uniongyrchol (mae dwy ran o dair o'r costau uniongyrchol hyn yn ymwneud â llety) a £400 miliwn, 38 y cant, yn gostau anuniongyrchol sy'n ymwneud â gostyngiad mewn cynhyrchiant.

11. At hynny, mae'r dadansoddiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i lywio gan ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol yn y maes a chyrrff y trydydd sector. Cynhaliwyd dau ymgynghoriad hefyd i ganiatáu i'r Asesiad ymgorffori safbwyntiau awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

12. Cadarnhaodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, Paul Davies AC, i'r Pwyllgor fod y costau amcangyfrifedig hyn "mor gywir â phosibl" o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael – megis amseroedd aros neu'r nifer o bobl sydd ag awtistiaeth.

13. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, rhannodd Paul Davies AC ohebiaeth a gafodd gan Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi:

"Dim ond i gadarnhau ein sgwrs yn dilyn y cyfnewid llythyrau diweddar rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Paul Davies nad yw Ysgrifennydd y Cabinet o blaid darparu unrhyw wybodaeth bellach ar hyn o bryd."²

14. Daeth Paul Davies AC i'r casgliad:

"... roedd hi yn siomedig iawn fod y Llywodraeth wedi methu neu wedi gwrthod rhoi rhagor o wybodaeth i ni."³

¹ [Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwyllderâu'r Sbectrwm Awtistiaeth \[fel ar 26 Tachwedd 2018\]](#)

² Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2018, paragraff 9

³ Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2018, paragraff 10

15. Amlinellodd Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, (Ysgrifennydd y Cabinet) ei farn, sef:

“The costs, such as they are—that we’re investing in the service—are available. In terms of the costs for the Bill, that’s not a matter for the Government. Through the Bill process, there’s been an interesting conversation about how we divide up costs and how we provide those costs. Because we’re currently delivering a system based on needs, and we’re investing money in the integrated autism service to underpin the strategy we have, to then undertake an exercise to try and portion out direct costs for autism would have required us to run through a not uncomplicated process, and, really, that’s a matter for the Member in charge, as opposed to the Government undertaking work with a real cost to it. So, it’s for the Member in charge to set out from his own perspective how he assess the costs as they are and the costs of the Bill and the legislation that he seeks to introduce.”⁴

16. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet ei syndod hefyd nad oedd yr Aelod sy’n gyfrifol wedi cyflogi economegydd iechyd er mwyn helpu i weithio drwy’r ffigurau. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd yr Aelod sy’n gyfrifol i’r Pwyllgor ar y pwynt hwn a nododd:

“Mae’n amlwg o’m tystiolaeth i mi ofyn am gyngor arbenigol cadarn am y data sydd ar gael. Mae’n destun pryder nodi’r anawsterau a amlinellwyd i chi gan Ysgrifennydd y Cabinet wrth wahaniaethu gwariant penodol ar ASD o’r gwariant ehangach ar gyflyrau datblygu niwrolegol, gan y byddai disgwyl bod y llywodraeth yn casglu’r data hyn fel rhan o’i gweithgareddau ASD presennol. Mae’n destun pryder nodi’r anawsterau a amlinellwyd i chi gan Ysgrifennydd y Cabinet wrth wahaniaethu gwariant penodol ar ASD o’r gwariant ehangach ar gyflyrau datblygu niwrolegol, gan y byddai disgwyl bod y llywodraeth yn casglu’r data hyn fel rhan o’i gweithgareddau ASD presennol. At hynny, os nad yw’r wybodaeth hon ar gael yn hwylus, nid wyf yn siŵr sut y gallai economegydd iechyd fod wedi cynorthwyo yn yr achos hwn.”⁵

Casgliad 1. Mae’r Pwyllgor yn pryderu nad oedd Llywodraeth Cymru yn darparu costau ar gyfer darparu’r gwasanaethau presennol i’r Aelod sy’n gyfrifol am y Bil.

⁴ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, paragraff 254

⁵ [Cohebiaeth gan Paul Davies AC](#)

Argymhelliad 1. Yn y dyfodol, pe bai'r Cynulliad yn pleidleisio o blaid y cynnig a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Y fethodoleg ar gyfer cyfrifo costau

Opsiwn 1

17. Opsiwn 1 yw'r opsiwn diodyn lle mae'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistiaeth yn parhau i gael ei chyflwyno ledled Cymru yn ei ffurf bresennol.

18. Mae'r tabl isod yn dangos y costau cryno ar gyfer Opsiwn 1:

Corff	£000					Cyfanswm
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	
Llywodraeth Cymru	0	0	0	0	0	0
Byrddau Iechyd Lleol	74	74	74	74	74	370
Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus (costau uniongyrchol)	700,058	702,142	704,223	706,350	708,496	3,521,268
Costau cyfle wedi'u haddasu ar gyfer cyflogaeth	424,704	425,968	427,231	428,521	429,823	2,136,248
Cyfanswm y costau	1,124,836	1,128,183	1,131,528	1,134,944	1,138,393	5,657,884

Er gwybodaeth: mae'r costau wedi'u crynhoi ac felly efallai na fydd yr is-gyfansymiau yn gyfystyr â'r cyfansymiau.

19. Cytunodd Llywodraeth Cymru ei bod yn hapus yn gyffredinol â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifo costau Opsiwn 1, ond cododd nifer o faterion technegol ar y ffigurau a ddefnyddiwyd i'w cyfrifo mewn gohebiaeth ddilynol, er enghraifft:

“Cyflwynir y costau i'r bunt agosaf. Mae hyn yn gwneud rhai o'r tablau, er enghraifft Tabl 7 yn anodd iawn eu darllen. Yn bwysicach na hynny,

mae'n awgrymu lefel ffug o gywirdeb yn y dadansoddiad a allai, felly, roi'r argraff o hyder yn y cyfrifiadau.”⁶

Opsiwn 2

20. Mae Opsiwn 2 yn nodi costau i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod anghenion plant ac oedolion sydd ag ASD yng Nghymru yn cael eu nodi a'u diwallu. Dyma'r opsiwn a ffeffrir ar gyfer y Bil.

21. Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm y costau ychwanegol ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Bil dros gyfnod o bum mlynedd.

Corff	£000					Cyfanswm
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	
Llywodraeth Cymru	145	20	45	129	20	360
Byrddau Iechyd Lleol	1,584	1,458	1,458	4	4	4,509
Sefydliadau'r Trydydd Sector	0	2,014	168	168	168	2,519
Cyfanswm y costau	1,729	3,492	1,672	301	193	7,387

Er gwybodaeth: mae'r costau wedi'u crynhoi ac felly efallai na fydd yr is-gyfansymiau yn gyfystyr â'r cyfansymiau.

22. Mynegodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru rai pryderon gyda'r fethodoleg ar gyfer Opsiwn 2:

“...looking into option 2, the methodology that's been taken is to look at the current population of the waiting list, and to gross that up using a figure of £2,500, which would be the private sector rate for an assessment process for diagnosis. The Member has costed up the waiting list. The RIA is silent on what would happen beyond that waiting list being eradicated. So, it says nothing about future demand, nor does it say anything about the increased demand that may well come through the system through an approach such as this, which is diagnosis-based.”⁷

⁶ Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, paragraff 268

23. Roedd hon yn farn a wrthbrofwyd Paul Davies, gan nodi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi:

“tybio y bydd diagnosis yn uwch na chyfradd yr achosion er mwyn darparu ar gyfer rhywfaint o dwf yn y galw.”⁸

Casgliad 2. Nid yw'r Pwyllgor wedi gallu ystyried yn llawn werth am arian Opsiynau un a dau gan nad oes llawer o wybodaeth ar gael am gostau cyfredol Llywodraeth Cymru i lywio ystyriaethau o'r fath.

Camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

24. Ysgrifennodd yr Aelod sy'n gyfrifol at y Pwyllgor i egluro camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Nododd:

“...er nad yw hi wedi bod yn bosibl darparu ffigur cywir ar gyfer cyfanswm costau awtistiaeth yng Nghymru, y ffigur amcangyfrifedig sydd wedi'i gynnwys yn yr RIA yw £1.1 biliwn y flwyddyn. Mae'r RIA yn cyfeirio at ostyngiad o 1% mewn gwariant awtistiaeth gan arwain at arbediad o £1 miliwn bob blwyddyn, sef ffigur y cyfeiriais ato hefyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, mae hwn yn danamcangyfrif o'r arbedion posibl oherwydd, yn seiliedig ar gyfanswm costau o £1.1 biliwn, byddai gostyngiad o 1% mewn gwariant awtistiaeth mewn gwirionedd yn arwain at arbedion blynyddol o £11 miliwn.”⁹

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camgyfrifiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac yn argymhell y dylid mynd i'r afael â hyn, pe bai'r Bil yn symud ymlaen i gyfnod 2.

Cynnydd yn y galw am wasanaeth

25. Mae'r Bil yn rhoi mwy o ffocws ar asesiadau diagnostig. Archwiliodd y Pwyllgor a fyddai hyn yn effeithio ar wasanaethau cefnogi ASD gan y byddai adnoddau ychwanegol yn cael eu hailgyfeirio i ddiagnosteg.

26. Yn ôl yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

“Y gost ychwanegol uchaf fyddai'r gost lawn o ddarparu gwasanaethau i bobl ag ASA sy'n cael diagnosis cynnar am 13 wythnos. Gwnaed rhagdybiaeth y bydd y diagnosis yn cael ei gwblhau ar gyfartaledd 13

⁸ [Gohebiaeth gan Paul Davies AC](#)

⁹ [Gohebiaeth gan Paul Davies AC](#)

wythnos yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Y niferoedd a gynhwysir yw'r amcangyfrif o'r rhai sy'n aros dros 13 wythnos ar hyn o bryd, a 400 diagnosis ychwanegol bob blwyddyn. Amcangyfrifir mai'r gost o ddarparu gwasanaethau i bobl ag ASA na fyddai fel arall wedi cael diagnosis fydd £9.5 miliwn mewn costau uniongyrchol, ynghyd â £3.9 miliwn o golledion yn sgil y gostyngiad mewn cynhyrchiant.”¹⁰

27. Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol y byddai'n hoffi:

“...[g]wrthbrofi'r farn a fynegwyd droeon gan Ysgrifennydd y Cabinet mai unig ffocws y ddeddfwriaeth yw sicrhau diagnosis o ASD. ...yn hytrach, mae'n cyflwyno cyfundrefn gyffredinol sy'n ceisio diwallu holl anghenion unigolyn ag ASD, cyn ac ar ôl diagnosis.”¹¹

28. Mewn ymateb i bryderon ynghylch y risg y gall capasiti gwasanaeth cymorth ASD gael ei danseilio o ganlyniad i'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer diagnosis, cydnabu Paul Davies AC:

“... there's a possibility that, obviously, by passing legislation, you will see an increase in demand, but I'd like to think that the costings that we've put forward with this Bill will, of course, absorb that demand as well.”¹²

29. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fel a ganlyn:

“If you have a diagnosis-led approach, then you'll have pressure on diagnostic services. Don't take my word for of it—it's something that the Children's Commissioner for Wales refers to in her evidence as well. So, you'll drive pressure there, so you'll drive resources there as well. That either means that you're saying that a diagnosis-led approach, not a needs-led approach, is the right thing. That's a significant departure from the way we provide services now across health and social care, and certainly the scheme set out in the social services and well-being Act, but it also then means that you're taking resource away from delivering against those needs. The RIA sets that out itself, actually; it recognises that that's a risk.”¹³

Casgliad 3. Mae'n anodd i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar deilyngdod dull sy'n seiliedig ar ddiagnosis yn erbyn dull sy'n seiliedig ar anghenion heb ymwneud â

¹⁰ Asesiad Effaith Rheoleiddiol

¹¹ [Gohebiaeth gan Paul Davies AC](#)

¹² Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2018, paragraff 103

¹³ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2018, paragraff 271

pholisi, ond mae'r Aelodau'n ansicr a yw'r galw ychwanegol posibl ar adnoddau y gall y dull hwn arwain ato wedi'i ystyried yn llawn. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd hwn yn seiliedig ar y diffyg gwybodaeth glir am yr arian a wariwyd ar wasanaethau ASD.

Cod Ymarfer

30. Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet Gynllun Gweithredu Strategol sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth. Credai ei fod yn adlewyrchu ymrwymadau newydd¹⁴ i wella gwasanaethau:

- cyhoeddi **Cod Ymarfer** ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.
- cyhoeddi **Cod Ymarfer** ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a chyflwyno'r system ADY newydd o 2020.
- diweddarau ac ehangu **canllawiau ar awtistiaeth** Llywodraeth Cymru ar gyfer **darparwyr tai**.
- **gwella'r broses o gasglu data** drwy ddatblygu cofrestrau awtistiaeth Meddygon Teulu.
- ymgynghori ar wneud **awtistiaeth yn thema annibynnol** ar gyfer asesiadau anghenion y boblogaeth yn y dyfodol.
- codi ymwybyddiaeth drwy **wella ymgysylltiad a chyfranogiad** pobl awtistig wrth **ddatblygu polisi**.
- **ehangu'r gwerthusiad annibynnol** i edrych ar yr aliniad rhwng gwasanaethau niwroddatblygiadol a gwasanaethau awtistiaeth ehangach i blant ac i **fynd i'r afael â'r rhwystrau parhaus** i leihau amserau aros diagnostig.

31. Pan roddodd Paul Davies AC dystiolaeth i'r Pwyllgor, nododd fod llawer o'r materion y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hwy yn y cod penodol hwn yr un fath â'r rhai yn y Bil. Aeth ymlaen i ddweud, pan holodd

¹⁴ Y Cyfarfod Llawn, 25 Medi 2018

Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch cost Cod Ymarfer newydd Llywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn, na chafodd ateb uniongyrchol.¹⁵

32. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet mewn gohebiaeth ysgrifenedig:

“Diben y Cod Ymarfer fydd cynnal a chryfhau'r gwaith o ddarparu Cynllun Gweithredu Strategol presennol Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, a byddaf yn cyhoeddi dogfen ymgynghori ar hyn ddiwedd y mis hwn. Cefnogir y cynllun hwn gan gostau blynyddol o tua £730,000 i ddarparu'r rhaglen waith, £13 miliwn i ddarparu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig tan fis Mawrth 2021 a £2 filiwn y flwyddyn i gefnogi gwelliannau i wasanaethau niwroddatblygiadol plant.

Bydd y cod yn atgyfnerthu'r dyletswyddau presennol a roddir ar Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf y GIG. Nid wyf yn rhagweld y bydd angen unrhyw gyllid ychwanegol i wasanaethau gael eu llunio mewn ffordd sy'n gyson â'r cod. Efallai, fodd bynnag, y bydd risg o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Strategol yn y dyfodol pe bai'r Bil yn dod yn ddeddfwriaeth.”¹⁶

33. Mae hyn yn nodweddiadol o'r anawsterau y mae'r Pwyllgor wedi'u hwynebu wrth graffu ar y wybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â'r Bil hwn. Mae gan y Cod gost y cyllidebir ar ei chyfer o fewn yr amlen bresennol ar gyfer gwasanaethau ASD, ond nid oes eglurder ynghylch beth fydd y gwir gost.

Safbwynt y Pwyllgor

34. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon ynglŷn â Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r Bil hwn.

35. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechnegol gywir yn ei honiad mai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil sy'n gyfrifol am gynhyrchu a chostio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl y byddai mwy o gydweithrediad gan Lywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y data sydd ar gael yn cael eu darparu i unrhyw Aelod sy'n cynnig deddfwriaeth.

36. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai'r gwaith o graffu ar y Bil hwn wedi bod yn well pe baem wedi cael papur Ysgrifennydd y Cabinet cyn ei sesiwn dystiolaeth.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 11 Hydref 2018, paragraff 34

¹⁶ [Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet](#)

Mae'r ohebiaeth a ddaeth i law wedyn yn dechrau herio rhai o'r honiadau o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a byddai'r Aelodau wedi gallu ystyried y rhain ymhellach pe bai'r wybodaeth wedi'i darparu ymlaen llaw.

37. Mae llawer o feysydd nad yw'r Pwyllgor yn gallu gwneud sylwadau arnynt oherwydd diffyg gwybodaeth ariannol am y gwariant presennol ar ASD. Er enghraifft, fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Aelodau'n ansicr bod y galwad ychwanegol posibl ar adnoddau y gallai'r Bil hwn arwain ato wedi'i ystyried yn llawn. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd hwn yn rhannol yn seiliedig ar y diffyg gwybodaeth glir am yr arian a wariwyd ar wasanaethau ASD.

38. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth ariannol i Aelodau Cynulliad sy'n cynhyrchu deddfwriaeth dan arweiniad Aelod, gan mai'r Llywodraeth, yn y rhan fwyaf o achosion, yw'r brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth o'r fath. Mae'r Pwyllgor yn siomedig ynghylch y diffyg ymgysylltiad gan Ysgrifennydd y Cabinet gyda'r Aelod sy'n gyfrifol yn hyn o beth.

39. Mae'r diffyg gwybodaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru am gost gwasanaethau ASD yn golygu nad oedd y Pwyllgor yn gallu craffu ar y ffigurau a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Mae llwyddiant deddfwriaeth yn dibynnu ar wybodaeth gywir, ac roedd methu â darparu'r wybodaeth wedi rhwystro'r broses graffu a photensial y ddeddfwriaeth hon. Mae hyn yn gynsail sy'n peri pryder.

Casgliad 4. Nid yw'r Pwyllgor yn gallu gwneud penderfyniad ar ddilysrwydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddio hwn. Nid yw'r Aelodau wedi cael unrhyw reswm ariannol sylweddol i'r ddeddfwriaeth beidio â symud yn ei blaen, ond nid ydym wedi gallu pennu a oes unrhyw werth am arian yn y ddeddfwriaeth hon oherwydd diffyg y wybodaeth ariannol.